
# Cymhennu Ceredigion







Gweithio gyda'n gilydd i gadw ein strydoedd yn rhydd o rwystrau

Caru·Love Ceredigion

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

www.ceredigion.gov.uk

# Ydych chi erioed wedi meddwl …?

Dyma le da i bobl weld fy hysbyseb

Mi wnaf ddadlwytho fy stoc ar y pafin a'i symud yn fuan

Byddaf ond yn parcio yma am ryw 5 munud er mwyn taro mewn i'r siop

Ni fydd yn ddiwedd y byd os byddaf yn rhoi'r sbwriel allan ddiwrnod yn gynnar

Mi wnaf roi ychydig eitemau allan fan yma a byddwedyn mwy o le yn fy siop

Beth sy'n gyffredin yn y datganiadau uchod? Mae pob un ohonynt yn achosi rhwystr ar ein strydoedd ac yn berygl posib, yn enwedig i'r rheiny sydd â nam ar eu golwg a/neu nam corfforol, pobl hŷn a rhieni gyda chadeiriau gwthio a/ neu blant ifanc.

## Beth yw rhwystr?

Rhwystr yw gwrthrych nad oes ganddo awdurdod i fod ar y stryd / hongian dros y stryd neu sy'n glwm wrth gelfi stryd.

Fodd bynnag sut mae'r gwrthrychau yma'n effeithio ar aelodau eraill o'r gymuned? Beth am y canlynol …

Bydd rhwystrau yn medru cynnwys:

- Byrddau Hysbysebu (Byrddau A)
- Baneri
- Bordydd a chadeiriau
- Nwyddau a nwyddau sydd newydd eu cludo i'ch eiddo yn cael eu gadael ar y pafin
- Cerbydau sydd wedi parcio ar y pafin neu ar gyrbau isel
- Biniau olwynion a bagiau sbwriel
- Canopïau siopau a nwyddau sy'n hongian dros y stryd
- Deiliach yn gordyfu



Mae Paul yn berchen ar gi tywys yng Ngheredigion. “Anaml iawn rwy’n mentro allan o’m cartref oni bai fod gennyf i a’m ci dywysydd sy’n medru gweld am fy mod yn poeni fy mod mynd i gael niwed. Teimlaf y bu cynnydd mewn rhwystrau ar y stryd sy’n golygu y bydd yn rhaid i mi a’m ci tywys gerdded ar y ffordd i fynd heibio iddynt, sy’n brofiad ofnus iawn os nad ydych chi’n gweld llawer neu’n methu gweld o gwbl.”

Mae Laura yn ymweld ag Aberystwyth. “Rwy’n aml iawn yn ei chael hi’n anodd cerdded o amgylch y dref oherwydd byrddau hysbysebu ar y pafin. Nid wyf mor ystwyth ag oeddwn ac y mae’n medru bod yn anodd cerdded lle rwyf am fynd. Weithiau bydd byrddau yn rhwystro fy ngolwg pan rwyf am groesi’r ffordd ac rwy’n poeni na fyddaf yn gweld cerbyd neu na fydd y gyrrwr yn medru fy ngweld i.”





Mae Rhiannon yn defnyddio cadair olwyn ac yn byw yng Ngheredigion. "Fel rhywun sy’n defnyddio cadair olwyn y brif broblem a wynebir gennyf yw pafin na allaf gael fynediad iddo oherwydd cerbydau sydd wedi parcio ar gwrbyn isel neu bafin. Golyga hyn y bydd yn rhaid i mi newid fy nhrywydd ac o ganlyniad gorfod mynd allan i’r traffig, sy’n effeithio ar fy niogelwch."

Mam newydd o Geredigion yw Tara –
"Dim ond ers i mi ddechrau gwthio pram yr wyf wedi sylweddoli pa mor anodd yw hi weithiau i fynd yn hawdd ac yn ddiogel ar hyd y strydoedd. Gall hyn ddylanwadu ar le yr wyf yn dewis mynd i siopa, i fwyta allan neu i ymweld ag ef."



# Sut y gall hyn effeithio arnoch chi?

Beth fydd y canlyniadau personol neu'r cyfrifoldeb arnoch chi os taw chi yw achos un o'r rhwystrau yma?  Mae'n bosib y byddwch chi'n wynebu un neu fwy o'r canlynol:

- Talu dirwyon posib a / neu ffioedd cyfreithwyr
- Hawliau yswiriant neu atebolrwydd yn eich erbyn yn dilyn damwain / niwed
- Cyhoeddusrwydd gwael i'ch busnes pan fydd yn gysylltiedig ag achosi problemau
- Llai o bobl yn dod i mewn i'ch busnes oherwydd y rhwystr
- Treulio amser yn delio â chamau gorfodi yn eich erbyn




Er bod camau, yn cynnwys gorfodi, ar gael i'r Awdurdod ac eraill, byddai'n well gyda ni weithio gyda'n gilydd i greu diwylliant o newid cadarnhaol.

## Mawr obeithiwn y bydd y daflen hon yn …

... Codi ymwybyddiaeth o'r her a'r anawsterau y gall rhwystrau eu hachosi.
... Annog preswylwyr, ymwelwyr, busnesau, Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref i weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau fod Ceredigion heb rwystr a bod rhwydd hynt i bawb.
... Helpwch ni i sicrhau fod Ceredigion yn lle hapus a diogel i fyw ynddo sy'n annog pobl i ymweld, aros a mwynhau'r Sir a gwerthfawrogi'r hyn sydd gan Geredigion i'w gynnig.

***Er mwyn gwneud hyn bydd angen i ni weithio gyda'n gilydd –  Gadewch i ni gyd Garu Ceredigion***